40 ANNIVERSARY PENBLWYDD

disability wales
anabledd cymru

AROLWG
2011-12

Fersiynau Braille, print bras,
tâp sain neu ddisg ar gael.

Mae Anabledd Cymru yn derbyn cyllid
gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd gan Anabledd Cymru 2012
Cyfieithiwyd gan beuno.com
Dyluniwyd gan Andy Dark
Argraffwyd gan AST Print Group
Anabledd Cymru yn elusen gofrestredig, rhif 517391
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 1998621

**Tŷ'r Bont**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol Van**
**Caerffili**
**CF83 3GW**

**Ffôn:** 029 2088 7325
(MInicom drwy'r cyhoeddwr)
**Ffacs:** 029 2088 8702
**Ebost:** info@disabilitywales.org
**Gwefan:** www.disabilitywales.org

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

# CENHADAETH

Anabledd Cymru ydy'r gymdeithas genedlaethol ar gyfer Mudiadau Pobl Anabl sy'n ymdrechu dros hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth i bawb sy'n anabl.

# AMCANION STRATEGOL

Datblygu a chefnogi gwaith mudiadau sy'n cael eu harwain gan bobl anabl

Bod yn eiriolydd effeithiol dros farn, blaenoriaethau a buddiannau ein haelodau

Dylanwadu ar ffurfwyr polisi a phenderfyniadau ar bob lefel

Datblygu a darparu gwasanaethau fydd o les i bobl anabl

# Gair gan y Cadeirydd



> ❝ ...rydyn ni wedi ... sicrhau llwyddiannau nodedig.

Daeth yn adeg unwaith eto i mi, fel Cadeirydd Anabledd Cymru, gyflwyno adroddiad am y deuddeg mis diwethaf.

Cychwynnodd y flwyddyn yn brysur iawn. Fel pawb yn y sector gwirfoddol bu rhaid i ni edrych ar gyllidebau er mwyn ystyried sut orau i reoli'r sefydliad a darparu ein gwasanaethau, gyda llai o adnoddau, sy'n cynnwys y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi llwyddo i gyflawni llawer o waith a chynnal nifer o weithgareddau gan sicrhau llwyddiannau nodedig.

Yn unol ag arferion rheolaeth dda, mae pob Cyfarwyddwr erbyn hyn yn cael cyfweliad am eu datblygiad personol. Mae hyn yn gyfle i drafod sut i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau unigolion a datblygu diddordebau pobl ymhellach a chynnig hyfforddiant iddyn nhw er lles Anabledd Cymru. Rydyn ni hefyd wedi cynnal ystod o ddyddiau hyfforddiant fel Bwrdd ac, ambell dro, ar y cyd fel tîm Bwrdd a Staff. Ymhlith y sesiynau newydd a gynhaliwyd oedd hyfforddiant cyfryngau cymdeithasu ar y cyd â rhaglen Cynhwysiant Digidol Cymunedau 2.0.

Roedd llawer o'n gwaith ddechrau'r flwyddyn yn ymwneud â'n nod o gyflwyno Strategaeth ar gyfer Byw'n Annibynnol. Mae hwn wedi symud gryn dipyn yn ei flaen ac yn ystod ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yng Ngasnewydd Hydref diwethaf, cyhoeddodd Jane Hutt, A.C., Y Gweinidog Cyllid, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Fframwaith ar gyfer Gweithredu Byw'n Annibynnol. Mae Anabledd Cymru yn croesawu hyn yn fawr. Mynychwyd y seminar a'r Cyfarfod Cyffredinol gan nifer dda o bobl ac roedd y naill a'r llall yn llwyddiannus iawn.

Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, hoffwn groesawu dau Gyfarwyddwr newydd ar y Bwrdd, Terry Mills a Dave Powers.

Symudodd y prosiect ‘Way To Go’ i gyfnod newydd gydag hyfforddiant a rhaglenni datblygu’n cael eu cynnal yng Ngogledd a De Orllewin Cymru ar yr un pryd. Mynychwyd y sesiynau hyn gan nifer dda o bobl a rhai sesiynau’n orlawn.

Tua diwedd 2011, dechreuwyd ar y paratoadau ar gyfer lansio’n penblwydd yn 40 oed a chyhoeddi rhestr o ddigwyddiadau pwysig y 40 mlynedd o fodolaeth Anabledd Cymru. Er y gallwn ddathlu’r hyn yr ydyn ni eisoes wedi’i gyflawni, mae ffordd bell gyda ni i fynd eto! Dechreuon ni fis Ionawr 2012 gyda noson o ddathlu yn y Senedd i lansio’n Penblwydd yn swyddogol. Croesawyd ni yno gan Jane Hutt A.C.

Parhawyd gyda’r gwaith o gynllunio digwyddiadau allweddol gan adeiladu ar lwyddiannau Anabledd Cymru.

Yn ystod y flwyddyn bu rhaid ffarwelio â nifer o Gyfarwyddwyr sydd wedi symud i feysydd eraill– Henry Langen, a fu’n Ddirprwy Gadeirydd, Gwyn Kemp Philp a Dave Duncan; ar ran y bwrdd a’r staff hoffwn ddiolch iddyn nhw am roi o’u hamser ac am eu cymorth a’u cefnogaeth.

Hefyd, dymunaf ddiolch i Rhian Davies, ein Prif Weithredwraig am ei chymorth a thîm y staff am eu gwaith caled, eu hymroddiad a’u cefnogaeth barhaus yn ystod y flwyddyn a’r gobaith ydy y gallwn ni i gyd gamu ymlaen i flwyddyn lwyddiannus o ddathlu ein Penblwydd yn 40 mlwydd oed yn 2012.

**Wendy Ashton**

*Cadeirydd*

# **Adroddiad** y Trysorydd



Cyn dechrau ar fy adroddiad blynyddol, hoffwn ddiolch i Paula Reed, ein Rheolwr Swyddfa sydd wedi gweithio'n galed yn paratoi'r cyfrifon. Hefyd hoffwn ddiolch i'n harchwilwyr, Broomfield & Alexander, am eu gwaith caled a'u cyngor gwerthfawr.

**"**

**...mae'n anodd rhagweld dyfodol na fydd yn cynnwys toriadau yn y cyllid.**

## Eleni

Unwaith eto, bu'n flwyddyn fasnachu galed i ni, blwyddyn sydd wedi gweld toriadau yng ngwariant pob sector o'r economi. Ni ddihangodd Anabledd Cymru a chafwyd gostyngiad o 5% yn ein cyllid o'i gymharu â'r llynedd.

Er gwaethaf yr amgylchedd masnachu caled, mae ein staff wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau arian allanol a chontractau hyfforddi. Mae hyn yn golygu eleni y gallaf nodi bod y gwarged masnachu yn £57,815. Ar ôl ystyried y cronfeydd cyfyngedig mae gwarged o hyd o £32,019.

## Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Nod penodol y Polisi Cronfeydd wrth Gefn yw darparu ar gyfer digwyddiadau anrhagweladwy. Gallai hyn amrywio o ddarn hanfodol o offer swyddfa i golli'n holl gyllid yn sydyn.

Y nod yw dal chwe mis o gostau gweithredu, ac mae hyn yn cynnwys y gallu i gwrdd â'n holl oblygiadau.

Cyfanswm ein cronfeydd cyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn oedd £361,759; mae hyn yn cynnwys y pedair cronfa wrth gefn sydd wedi'u neilltio ar gyfer Colli Gwaith £44,306), Cymynroddion (£155,059), Ymgyrchoedd (£9,650) a'r Cynllun Bwrsari (£4,428).

Cyfanswm y gronfa wrth gefn sydd ei angen i gwrdd â'r polisi ydy £242,576, gyda'r cronfeydd wrth gefn cyfredol a gan ystyried ein holl goblygiadau, mae'r Polisi Cronfeydd wrth Gefn yn cael eu cyllido i 149%.

## Y Dyfodol

A sefyllfa economaidd y DU yn ansicr fel ag y mae, a'r toriadau yng ngwariant y Llywodraeth, mae'n anodd rhagweld dyfodol na fydd yn cynnwys toriadau yng nghyllid y mwyafrif o sefydliadau'r trydydd sector. Eisoes hysbyswyd Anabledd Cymru y bydd lefel eu cyllid yr un fath am y tair blynedd nesaf. A chymryd bod graddfa chwyddiant rhwng 2.5% a 3.5% , gallai hyn olygu gwir doriad o rhwng 7 a 10% dros y cyfnod hwnnw.

Yr unig ffordd o osgoi'r diffyg hwn ydy i Anabledd Cymru gynyddu faint o gyllid y gall ei sicrhau tu allan i'r grant craidd, naill ai drwy gyllid prosiect o ffynonellau eraill neu drwy incwm y mae hyfforddiant a gwaith contract arall yn ei greu.

Credaf y bydd y camau gweithredu a gymerodd y Bwrdd i ddatblygu strategaeth ar gynhyrchu incwm a'r gwaith a wnaed gan y staff i gynyddu proffil Anabledd Cymru yn y tymor hir yn help i sicrhau dyfodol Anabledd Cymru.

**Stephen Sweetman**

*Trysorydd*

# Datganiad o Weithgaredd Ariannol

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2012

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2012 | Cyfanswm 2011 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **ADNODDAU YN DOD I MEWN** | | | | |
| Adnoddau yn dod i mewn o gynhyrchu cyllid | | | | |
| **Incwm Gwirfoddol** | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 130 | - | 130 | 2,737 |
| Tanysgrifiadau | 4,765 | - | 4,765 | 4,122 |
| Grant | 419,900 | - | 419,900 | 442,000 |
| Incwm o Fuddsoddiadau | 1,788 | - | 1,788 | 245 |
| Hawliau Anabledd (DRC) | 9,446 | - | 9,446 | - |
| **Adnoddau yn dod i mewn o weithgareddau elusennol** | | | | |
| Darparu gwasanaethau | 19,656 | - | 19,656 | 14,633 |
| Grantiau | 800 | 101,529 | 102,329 | 81,822 |
| **Cyfanswm Incwm** | **456,485** | **101,529** | **558,014** | **545,559** |

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2012 | Cyfanswm 2011 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | | | | |
| Cost gweithgareddau elusennol | 392,481 | 75,733 | 468,214 | 519,192 |
| Costau'r drefn lywodraethol | 31,985 | - | 31,985 | 27,143 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **424,466** | **75,733** | **500,199** | **546,335** |
| Adnoddau Net (mynd allan) / dod mewn dros y flwyddyn | 32,019 | 25,796 | 57,815 | (776) |
| Trosglwyddiad | – | – | – | – |
| Balans cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 329,740 | 19,373 | 349,113 | 349,889 |
| **Balans cronfeydd a gariwyd ymlaen** | **361,759** | **45,169** | **406,928** | **349,113** |

# Datganiad o
# Weithgaredd Ariannol

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2012

## Mantolen

| | 2012<br>£ | 2012<br>£ | 2011<br>£ | 2011<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr | 20,031 | – | 20,380 | – |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 405,258 | – | 387,466 | – |
| | 434,289 | – | 407,846 | – |
| **Credydwyr:** symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn | (27,361) | – | (58,733) | – |
| **Asedau net cyfredol** | | 406,928 | | 349,113 |
| **Asedau net** | | 406,928 | | 349,113 |
| **Cronfeydd cronedig** | | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig: | | | | |
| Cronfeydd Dynodedig | | 199,365 | | 199,365 |
| Cronfeydd Cyffredinol | | 162,394 | | 130,375 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | 45,169 | | 19,373 |
| | | 406,928 | | 349,113 |

**Broomfield & Alexander**

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol,
Tŷ Derw, Lime Tree Court, Cardiff Gate Business Park CF32 8AB

# **Bwrdd**
# Cyfarwyddwyr 2011/2012

**Cadeirydd**
Wendy Ashton

**Dirprwy-Gadeirydd**
Henry Langen (*ymddiswyddodd 14 Chwef 2012*)
April Harper

**Trysorydd**
Stephen Sweetman

**Aelodau'r Bwrdd**
David Duncan (*ymddiswyddodd 19 Mawrth 2012*)
Mandi Glover
Natasha Hirst
Lesley Keetley (*o 19 Hydref 2011*)
Gwyn Kemp-Philp (*ymddiswyddodd 19 Mawrth 2011*)
Terry Mills (*o 19 Hydref 2011*)
Nich Pearson
Judith Pennington
David Power (*o 19 Hydref 2011*)

# Adroddiad
## Y Prif Weithredwr 2011/2012



**Rôl sylfaenol Anabledd Cymru ydy cyfleu barn mudiadau pobl anabl i'r llywodraeth er mwyn bod yn sail i bolisi a dylanwadu arno.**

Mae Anabledd Cymru (AC) yn falch o allu adrodd wrth yr aelodau am yr hyn mae wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf wrth weithredu ei rôl sylfaenol a'i amcanion strategol. Mae'r rhain ar draws rhaglen waith AC gan gynnwys cymorth a chefnogaeth i'r aelodaeth, ymgyrchoedd, trefn llywodraethu, amrywio'r ariannu a gwerthuso'r effaith.

Ochr yn ochr â'i waith parhaus achubodd AC ar y cyfle tra'n dathlu ei benblwydd yn 40 mlwydd oed i dynnu sylw at ei gyflawniadau ei hun ond hefyd cyd-gyflawniadau pobl anabl ac i nodi cynnydd wrth geisio sicrhau hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth. Hefyd darparodd y Penblwydd ystod o weithgareddau ychwanegol y gallai aelodau gymryd rhan ynddyn nhw gan gynnwys Derbyniad yn y Senedd, Sialens Cludiant '*All Aboard*' a phrosiect ffilm hanes llafar – *"The Story at 40: the lives and times of disabled people in Wales"*.

> ❝ **...hanes hir a balch yn sefyll dros hawliau pobl anabl yng Nghymru.**

Ymhlith y 60 o westeion yn Nerbyniad y Senedd roedd Carwyn Jones, Prif Weinidog Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynrychiolaeth drawsbleidiol o blith Aelodau'r Cynulliad a chydweithwyr o sefydliadau cenedlaethol a lleol. Ymhlith y siaradwyr gwâdd roedd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Jane Hutt, a Graham Benfield, Prif Weithredwr WCVA, y cyn Gyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a gynorthwyodd i sefydlu AC, a'i enw bryd hynny oedd Cyngor Cymru ar gyfer yr Anabl.

Pwysleisiodd y ddau hanes AC fel corff ymgyrchu; cyfeiriodd y Gweinidog at 'ei hanes hir a balch, yn sefyll dros hawliau pobl anabl yng Nghymru' gan roi 'blaenoriaeth i Fodel Cymdeithasol Anabledd fel ei fod yn ymglymu â ni sy'n llywodraethu', tra bu Graham Benfield yn canmol AC ar ei



*AC yng ngorymdaith 'Hardest Hit', Llundain*

'enw da am fod yn annibynnol gadarn ac am allu cyfathrebu'n glir ac awdurdodol'.

Yn gydnaws â'r teyrngedau hyn, trefnodd AC ymgyrch uchel ei phroffil yn ystod y Penblwydd sef Sialens Cludiant '*All Aboard*'. Roedd yn golygu bod pedwar cynrychiolydd a dau weithiwr cymorth o Young Voices for Choices Sir Benfro, sy'n grŵp aelodaeth AC, yn teithio 827 o filltiroedd o gwmpas Cymru gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Amlygodd y sialens y rhwystrau yn ogystal â'r cynnydd a wnaed i wella mynediad i fysys a threnau. Wedi'i noddi gan Drenau *Arriva* Cymru, Bysys *Arriva* Cymru ac Express Motors, cafodd hyn sylw sylweddol yn y cyfryngau a bu llawer o aelodau yn dilyn y daith ar *Facebook* a *Twitter*.

Gorffennodd pedwar diwrnod y Sialens yn Hwlffordd gyda dathliad te pnawn yn Neuadd y Sir a chyfle i'r bobl ifanc gyflwyno'u casgliadau i ddarparwyr cludiant, gwleidyddion lleol ac aelodau AC. Yn gyffredinol, roedd eu profiad yn bositif, sy'n dangos os gall trefniadau mynediad weithio'n esmwyth ar daith mor gymhleth dylai hefyd fod yn bosibl ar deithiau symlach i bobl anabl i wneud teithiau symlach. Rhaid diolch i'r teithwyr dewr, Sian Jones, Rhiannon Griffiths, Iain

Collins a Mike O'hara, ynghŷd â'u gweithwyr cymorth, Judith MacNamara a Nadine Farmer.

> **"**
> **rôl AC ydy herio agweddau a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl anabl a chydraddoldeb.**

Nodwedd arall ar rôl AC ydy herio agweddau a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl anabl a chydraddoldeb. Sicrhawyd grant o Gronfa Loteri Treftadaeth i gynhyrchu ffilm - *Story at 40* – yn cynnwys nifer o bobl anabl sy'n dathlu eu 40 oed yn ystod 2012 (fel AC). Mae'r bobl yn siarad am eu bywydau, eu cyflawniadau, eu dyheadau ac unrhyw rhwystrau a ddaeth i'w rhan. Mae hefyd yn ystyried sut mae mae'r pedwar degawd diwethaf o gynnydd mewn polisi a deddfwriaeth ar gydraddoldeb anabledd wedi effeithio ar eu bywydau. Agwedd gyffrous o *Story yn 40* ydy bod gwirfoddolwyr anabl o bob oed wedi'u recriwito a'u hyfforddi i ymuno â'r criw cynhyrchu fel rhan hanfodol o wneud a golygu'r ffilm. Caiff ei lansio ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl a bydd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer hyfforddi a chyflwyniadau. Hefyd, bydd y deunydd sydd heb ei olygu yn cael ei roi i Archif Cenedlaethol Sain a Sgrîn Cymru ac i Amgueddfa Werin San Ffagan i'w gadw i'r cenhedlaethau i ddod i'w ddefnyddio fel deunydd ymchwil a dogfennol.

Bydd Seminar Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol AC hefyd yn darparu llwyfan i aelodau ddathlu'r deugeinfed Penblwydd gyda Chinio a Disgo ar thema'r Saithdegau yn ogystal â thrafodaethau mwy difrifol ar bolisi sy'n adlewyrchu hawliau pobl anabl yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae'r Penblwydd wedi galluogi i AC gadarnhau cysylltiadau gyda hen gynghreiriaid yn ogystal â sefydlu partneriaethau newydd sydd wedi golygu adnoddau a chyfleoedd ychwanegol a fydd yn siwr o fod o fantais i'r aelodau am flynyddoedd i ddod.

Drwy'r flwyddyn cynorthwyodd AC i ddatblygu'r aelodaeth gan gynnal seminarau, digwyddiadau briffio a rhaglenni




*Ymgyrchwyr 'Hardest Hit' Cymru yn gorymdeithio drwy Gaerdydd*

hyfforddi a mynychodd cyfanswm o 430 o bobl y digwyddiadau hyn. Roedd y pynciau yn amrywio o Ddeddf Cydraddoldeb (2010) i Drin Gwrthdaro, ac o Ragarweiniad i'r Taliad Annibyniaeth Bersonol arfaethedig. Unwaith eto, bu prosiect AC '*Y Ffordd Ymlaen: Cynllunio Mynediad Cynhwysol*' a ariannwyd o Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn llwyddiant mawr. Cynhaliwyd rhaglen o chwe modiwl ar yr un pryd yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Canmolwyd y modiwlau gan y cyfranogwyr gan eu galw'n 'llawn gwybodaeth ac yn rhyngweithiol'. Mynychwyd y sesiynau gan gynrychiolwyr o wahanol sefydliadau pobl anabl ac adrannau cynllunio statudol gyda'r bwriad o sicrhau amgylchedd adeiledig mwy hygyrch yn eu hardaloedd.




Yn ogystal â rhoi'r wybodaeth a'r newyddion diweddaraf i aelodau drwy ddeuddeg rhifyn *E News* mae AC a'r Cyfryngau Cymdeithasu wedi ymglymu bron i chwe chant o unigolion ar *Facebook* a thua 2,500 o ddilynwyr ar *Twitter*. Drwy'r cyfrwng newydd hwn cyrhaeddodd gwaith ac ymgyrchoedd AC gynulleidfa o bobl anabl a chefnogwyr, llawer ohonyn nhw heb fod ynghlwm wrth grwpiau lleol ond yn ffurfio rhwydweithiau ar-lein bywiog. Ond mae AC yn ymwybodol iawn nad yw pob person anabl yn gallu manteisio

> “
> **...amlygodd AC yr angen brys am ddull strategol o ddelio â Byw’n Annibynnol yng Nghymru, gan ddyfynnu’r cynnydd yn Lloegr a’r Alban.**

ar y rhyngrwyd oherwydd eu bod ar incwm isel, oherwydd diffyg hyfforddiant neu wybodaeth am feddalwedd hygyrch. Er mwyn ceisio delio â hyn mae gan AC gynrychiolaeth ar Bwyllgor Llywio menter Cymunedau 2.0 Llywodraeth Cymru gyda’r nod o weithredu Strategaeth Cynhwysiad Digidol y fenter.

Mae ymgyrchoedd AC wedi cael dylanwad arbennig ar nifer o feysydd polisi gan gynnwys Byw’n Annibynnol, Trosedd Casineb Anabledd a Gwella’r Bathodyn Glas. Mae’r rhain wedi bod o fantais i aelodau oherwydd eu bod nhw wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith ffurfwyr polisi a darparwyr gwasanaeth o faterion penodol sy’n effeithio ar bobl anabl, ac wedi hyrwyddo darpariaeth ddi-dor sy’n cwrdd ag anghenion unigolion a’r canlyniad oedd dileu codi tâl.

Llwyddwyd i gyflwyno polisi pwysig pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad o gyflwyno Fframwaith Gweithredu ar Fyw’n Annibynnol mewn ymateb i ymgyrch AC sef *Byw’n Annibynnol Nawr!* Cyn Etholiadau’r Cynulliad ym mis Mai 2011, lansiodd AC ei *Faniffesto ar gyfer Byw’n Annibynol* oedd yn amlinellu chwe blaenoriaeth ar gyfer gweithredu y mae aelodau a chefnogwyr AC wedi’u nodi yn dilyn cyfres o sioeau teithiol a byrddau crwn yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dyma nhw: gwybodaeth; eiriolaeth a chyngor; tai; cymorth wedi’i bersonoli; technoleg wedi’i ganoli ar y person; cludiant a mynediad i gyfleoedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

*Rali ‘Hardest Hit’ Cymru, Neuadd y Ddinas, Caerdydd*



Ynghŷd â chefnogaeth eang dros dargedau’r maniffesto, roedd dau

ffactor hanfodol a sicrhaodd ymrwymiad y llywodraeth i ddelio â byw'n annibynnol. y ddau ffactor oedd defnydd AC o broses Deisebau'r Cynulliad a'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Cyd Bwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol a gadeirwyd gan y Dr Hywel Francis AS.

Seiliodd AC ei ddeiseb ar Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledd (UNCRPD) sy'n amlinellu hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol yn y gymuned a galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu strategaeth i'w gyflawni. Llwyddwyd i gasglu dros 700 o enwau i'n cefnogi, cyflwynodd y Pwyllgor Deisebu achos AC i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, lansiodd y Cyd-bwyllgor Ymchwiliad i Weithredu Erthygl 19 gan lywodraethau'r DU a llywodraethau datganoledig. Yn ei dystiolaeth amlygodd AC yr angen brys am ddull strategol o ddelio â Byw'n Annibynnol yng Nghymru, gan ddyfynnu'r cynnydd yn Lloegr a'r Alban. Nododd y Cyd-bwyllgor y byddai hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ei chynlluniau ar fyw'n annibynnol.

Yn dilyn cyfarfodydd rhwng AC, y Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru dros yr Haf, cyhoeddodd Jane Hutt, Aelod Cynulliad, i'r Pwyllgor Deisebu ym mis Hydref y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Fframwiath Gweithredu Byw'n Annibynnol fel un o'i amcanion Cydraddoldeb Strategol. Ers hynny, mae AC wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid sector anabledd i ddatblygu'r Fframwaith. Roedd pawb yn cefnogi chwe blaenoriaeth y Maniffesto gan bwysleisio pwysigrwydd cau'r bwlch rhwng y polisi a'i gyflenwi fel bod pobl anabl yn cael gwir annibyniaeth mewn cymunedau o gwmpas Cymru.

Er bod llawer o waith AC wedi'i anelu at ddelio â rhwystrau i gydraddoldeb pobl anabl sydd yn aml yn deillio o




*Adrian Masters (ITV Wales) a Simon Dawson (DWP) yn Seminar Flynyddol AC ar Doriadau Anghyfartal (*Unequal Cuts*)*

ganlyniadau anfwriadol, mae hefyd wedi canolbwyntio ar faterion megis Trosedd Casineb Anabledd a Chamdrin Domestig lle targedir unigolion yn benodol oherwydd eu bod yn anabl. Ar ôl y seminarau a'r gynhadledd a drefnwyd ar y cyd gyda Gwasanaethau'r Heddlu yng Nghymru y flwyddyn flaenorol, chwaraeodd AC ran flaenllaw yn natblygiad Grŵp Gweithredu Trosedd Casineb Anabledd Cymru. Fforwm ydy hwn sy'n dod â sefydliadau anabledd cenedlaethol a phartneriaid yn Llywodraeth Cymru, yr Heddlu a'r Comisiwn Hawliau Dynol at ei gilydd i daclo trosedd casineb anabledd gyda phwyslais arbennig ar wella riportio.

> **"...pobl anabl yn wynebu aflonyddu yn ddyddiol.**

Cymerodd AC ran yn ymchwiliad EHRC i Aflonyddu ar sail Anabledd a'r canlyniad oedd adroddiad: *Hidden in Plain Sight*. Nododd yr Ymchwiliad bod pobl anabl yn wynebu aflonyddu yn ddyddiol yn aml yn newid eu trefn ddyddiol er mwyn osgoi ardaloedd â phroblemau megis cludiant cyhoeddus a thu allan i giatiau ysgol, adeg amser mynd adref. Hefyd, y ffaith bod lawer yn derbyn camdriniaeth fel rhan o'u bywydau a hyd yn oed pan fydden nhw'n ei riportio

fyddai pobl ddim yn eu credu. Yng Nghymru, ymhlith yr argymhellion oedd bod Llywodraeth Cymru yn arwain i daclo aflonyddu, gan ddefnyddio dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a pheilota Cynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaethol (MARAC's), dull sydd wedi llwyddo i ddelio â chamdrin domestig.

Mewn ymateb i *Hidden in Plain Sight*, lansiodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad ei Ymchwiliad ei hun yn canolbwyntio ar rôl Llywodraeth Cymru a chyflwynodd AC dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Ymchwiliad hwnnw. Gwnaeth yr Ymchwiliad nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru a'i ymateb oedd cyflwyno amcan cydraddoldeb strategol i daclo trosedd casineb yn gyffredinol gan gynwys yn erbyn pobl anabl. Cynrychiolir AC ar y gweithgor ymgynghorol yn ogystal ag ar Weithgor Cymru Gyfan a sefydlwyd gan wasanaethau'r heddlu i beilota MARACau.

Yn ychwanegol at ddatblygiadau polisi, ceisiodd AC daclo trosedd casineb yn fwy uniongyrchol. Yn erbyn cystadleuaeth gref, llwyddodd i sicrhau arian gan y Swyddfa Gartref i ddatblygu prosiect peilot theatr fforwm mewn partneriaeth â Theatr 'Taking Flight' a fydd yn mynd ar daith o gwmpas ysgolion a chanolfannau ieunectid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Drwy'r prosiect bydd AC yn cynnwys a siarad â phobl ifanc yn uniongyrchol am effaith trosedd casineb ac annog agweddau mwy parchus tuag at bobl anabl.

Yn yr un modd, mae AC wedi codi proffil mater arall sydd heb gael llawer o sylw sef camdrin domestig yn erbyn merched anabl. Mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Morgannwg a Chymorth i Fenywod Cymru a gydag arian Llywodraeth Cymru, cynhaliodd AC brosiect ymchwil i brofiadau menywod

anabl a'i seilio ar nifer fechan o astudiaethau achos ac arolwg asiantaethau cymorth. Un o'r casgliadau allweddol oedd nad yw'r mater hwn yn cael ei gydnabod gan sefydliadau anabledd na chwaith gan wasanaethau sy'n cynorthwyo menywod yn wynebu camdrin domestig. O ganlyniad, prin ydy'r hyfforddiant ar gyfer staff, yn aml dydy'r llochesi ddim yn hygyrch ac y mae diffyg gwasanaethau di-dor. Mae taclo camdrin domestig yn cael ei gynnwys yn Fframwaith Llywodraeth Cymru ar drosedd casineb a thrais er anrhydedd ac mae AC yn edrych ymlaen at argymhellion yr ymchwil a fydd yn sail i'r modd y bydd gwasanaethau yn ymateb i anghenion menywod anabl yn y dyfodol.

> **Pryder AC ydy mai mesur arbed costau ydy targedu pobl anabl 'per se' gan esgus eu bod yn ceisio darganfod twyll.**

Yn ogystal â dylanwadu ar bolisîau sy'n arwain at wasanaethu gwell, mae AC bob amser yn fodlon pan fydd ei gyfraniad yn golygu bod pobl anabl yn elwa'n ariannol fel a ddigwyddodd yn achos Bathodynnau Glas. Ymysg pryderon y byddai tâl am fathodynnau yn codi i £20, gwrthwynebodd AC y cynnig hwn yn yr ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru ac mewn cyfarfodydd y Grŵp llywio. Penderfynodd Gweinidogion hepgor y taliad yn gyfangwbl. O gofio ei bod yn fain yn ariannol ar nifer o bobl anabl, roedd hyn yn newyddion i'w groesawu.

Er na lwyddwyd i gael canlyniad tebyg ar gynigion Diwygio Lles Llywodraeth y DU, sicrhaodd AC bod gwleidyddion, gwneuthurwyr polisi, y cyfryngau a'r cyhoedd yn gyffredinol yn cael gwybod am bryderon difrifol yr aelodau a'r effaith debygol ar filoedd o bobl anabl yng Nghymru. Ymhlith y pryderon mae disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl gyda Thaliad Annibyniaeth Bersonol, cau Cronfa Byw'n Annibynnol i ymgeiswyr newydd, y newidiadau i fudd-dal tai sy'n gofyn i unigolion o dan 35 fyw mewn llety a rennir a gosod cosbau ar dai gydag ystafell wely 'sbâr'.

Mae AC yn credu y bydd y rhain yn unigol ac ar y cyd yn



*AC yn ymgyrchu dros hawliau pobl anabl*

niweidio cyfle pobl anabl i gynnal eu hannibyniaeth a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Yn hytrach na thargedu adnoddau at y rhai â'r 'angen mwyaf', pryder AC ydy mai mesur arbed costau ydy targedu pobl anabl 'per se' gan esgus eu bod yn ceisio darganfod twyll. Mae'r honiadau bod unigolion yn ffugio' eu namau ar raddfa ddiwydiannol mor niweidiol â'r tebygrwydd o golli incwm gan fod llawer o bobl anabl yn adrodd bod cynnydd yn nigwyddiadau gelyniaethus pan fyddan nhw'n mynd allan.

Ar ran ei aelodau mae AC wedi blaenoriaethu gwaith ar Ddiwygio Lles, er nad yw fel mater heb ei ddatganoli, yn cael ei ariannu'n benodol i weithredu hyn. Ymhlith y gweithgareddau mae cydlynu ymatebion i ymgynghoriadau'r llywodraeth, casglu astudiaethau achos o blith yr aelodau i ddangos effaith y diwygiadau, trefnu cynadleddau ac achlysuron briffio yn ogystal â chyfrannu at ymchwil yn arbennig drwy ei rôl arweiniol yn '*Cuts Watch Cymru*'. Gydag RNIB Cymru, cydlynodd Ymdaith a Rali llwyddiannus yng

Nghaerdydd a ddenodd bron i fil o gyfranogwyr. Cafodd y gweithgareddau gyhoeddusrwydd sylweddolodd ar deledu, radio ac yn y papurau gyda nifer o gynrychiolwyr AC yn cael eu cyfweld yn rhoi sylwadau ac ysgrifennu blogiau ac erthygau.

Yn anochel, roedd cyllid yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, o gofio am doriad o 5% yng ngrant sylfaenol Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r gwaith sylweddol o gyflwyno cais am y tair blynedd nesaf. Byddai cais llwyddiannus yn golygu bod cyllid sylfaenol wedi'i sicrhau tan 31 Mawrth 2015 er ei fod wedi'i rhewi, ond byddai AC yn gallu cynllunio i'r dyfodol a chwilio am ffrydiau ariannu ychwanegol. Mae AC yn ddibynnol iawn ar gyllid Llywodraeth Cymru ac felly mae llwyddo i gael grant o Gronfa Treftadaeth y Loteri, y Swyddfa Gartre ac Oxfam i'w groesawu.

> **"Mae AC yn parhau i ystyried pwysigrwydd eu hymrwymiad i ddatblygu eu personél ac mae wedi ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl am hyn.**

Mae AC yn cydnabod yr angen i gynhyrchu incwm y byddai'n gallu ei ail-fuddsoddi yn y sefydliad er lles aelodau. Mae wedi cynnal nifer o gyrsiau Hyfforddi Cydraddoldeb Anabledd ar gyfer sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol ac yn ystod y flwyddyn comisiynodd Astudiaeth Ddichonoldeb gan ymgynghorwyr allanol i ddatblygu Gwasanaeth Hyfforddi ac Ymgynghori. Mae canlyniad hyn wedi bod yn fodd o oleuo Strategaeth Cyllido AC.

Mae 'na gysylltiad agos rhwng cynaladwyedd ariannol a chynaladwyedd amgylcheddol ac roedd AC yn falch ei fod wedi cyflawni safon Lefel 3 Gwobr Y Ddraig Werdd drwy wahanol fesurau i ostwng ei ôl traed carbon. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio mwy ar gludiant cyhoeddus i fynychu cyfarfodydd, newid i gynhyrchion mwy cyfeillgar i'r amgylchedd ac arbed ynni.

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae llawer yn synnu sut mae AC yn cyflawni proffil mor uchel a chymaint o waith gyda dim ond staff o wyth. Eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i sicrhau hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pobl anabl sydd bennaf gyfrifol. Mae hyn yn wir hefyd am y rhai hynny sydd yn dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, yn gweithio gydag aelodau, swyddogion y llywodraeth a chydweithwyr yn y trydydd sector ar ymgyrchoedd allweddol, yn ogystal â'r staff sy'n gweithio yn y cefndir i sicrhau y caiff ymholiadau ymateb ar eu hunion, trefnu digwyddiadau yn effeithiol a rhedeg y swyddfa yn effeithiol.

Mae AC yn parhau i ystyried pwysigrwydd eu hymrwymiad i ddatblygu eu personél ac mae wedi ennill statws *Buddsoddwyr mewn Pobl* am hyn. Cyflwynodd AC system o gyfweliadau datblygiad personol ar gyfer Cyfarwyddwyr, sy'n ategiad i'r gwerthusiadau blynyddol mae'r staff yn ei gael. Mae'n cynnwys cyfarwyddwyr a staff mewn trafodaethau ffurfiol ac




*Ymgyrchwyr unedig yn erbyn cwtogi ar fudd-dal a gwasanaethau i'r anabl*

> ❝
> **Pedwar degawd ymlaen, ystyrir anabledd yn fater cydraddoldeb yn hytrach na lles.**

anffurfiol am ein cyfeiriad strategol a chynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi ar y cyd. Mae cyfarwyddwyr a staff hefyd yn cydweithio ar Bwyllgorau Cyllido a Phwyllgorau'r Deugeinfed Penblwydd.

O gofio ei fod yn dîm agos iawn roedd AC yn drist bod Michelle Herbert, Rheolwraig Gwasanaethau Aelodaeth wedi ymadael ym mis Mawrth ar ôl chwe mlynedd o wasanaeth i'r sefydliad. Mae wedi symud i swydd newydd gyda RNIB Cymru i redeg Prosiect Cynhwysiad Digidol ac mae AC yn edrych ymlaen at gydweithio gyda hi yn eu rôl newydd.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae AC wedi elwa'n fawr o groesawu gwirfoddolwyr ar brofiad gwaith sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o rolau sy'n cynorthwyo AC tra'n ennill sgiliau ac arbenigedd i wella'u targedau datblygiad proffesiynol a phersonol. Mae AC yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr Maggie Hayes a Martin Griffiths a wirfoddolodd yn ystod y flwyddyn.



*Cyfranogwyr Y Ffordd Ymlaen Gogledd Cymru wrth eu gwaith yn cynllunio*

Rhaid diolch i Wendy Ashton, Cadeirydd AC, a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am eu doethineb, eu cymorth a'u hymroddiad. O gofio am yr hinsawdd ariannol ansicr a sialensiau'r dyfodol, mae Bwrdd sy'n cymryd ei rôl a'i gyfrifoldebau mor ddifrifol tra'n parhau i barchu gwerthoedd AC fel sefydliad pobl anabl yn amhrisiadwy.


Dros ddeugain mlynedd bu newidiadau sylweddol i bobl anabl yn ogystal ag i AC ei hun. Yn 1972 doedd nemor ddim gwasanaethau cymorth a budd-daliadau wedi'u sefydlu nag unrhyw gysyniad o hygyrchedd heb sôn am hawl i bobl anabl gymryd rhan ym mhrif ffrydiau cymdeithas. Yn wir roedd enw gwreiddiol AC – Cyngor Cymru ar gyfer yr Anabl - yn adlewyrchu agweddau tadol y cyfnod.

Bedwar degawd yn ddiweddarach yn gyffredinol caiff anabledd ei ystyried yn fater o gydraddoldeb yn hytrach na mater lles, fodd bynnag, dydy enillion deddfwriaethol ddim wedi golygu bod unigolion anabl 'wedi cyflawni ein targedau ein hunain a byw ein bywydau ein hunain yn y modd y bydden ni ein hunain yn ei ddewis'. Y pryder ydy y bydd y toriadau mewn budd-daliadau a gwasanaethau yn dadwneud unrhyw gynnydd a wnaed eisoes. I AC a'i aelodau y sialens ydy ymateb yn adeiladol i'r sefyllfa gyfredol, gan ddefnyddio'r ystod lawn o dechnegau ymgyrchu a chyfathrebu, arfau megis yr UNCRPD a Dyletswyddau Cydraddoldeb a dulliau sy'n dod â phobl at ei gilydd i'r un pwrpas. Fel sefydliad gyda deugain mlynedd o hanes, mae AC yn hen gyfarwydd â chynnal ei weledigaeth o bobl anabl yn cymryd eu lle teilwng mewn cymdeithas a pharhau i fod yn gadarn ei fod am ei gyflawni, waeth beth fo'r amgylchiadau cyffredinol.

**Rhian Davies**

*Prif Weithredwr*

# Strwthur trefniadol



# Aelodau

## AC 2011/2012

A.B.C.D.
A.S.B.A.H. Llanelli a'r Cylch
Caffaeliadau Prifysgol Caerdydd
Action on Hearing Loss (RNID gynt)
Age Cymru
Antur Teifi
Grŵp Mynediad Arfon
Gofal Arthritis Cymru
Asbah Cymru
Cyngor Anabledd Blaenau Gwent
Breakthrough UK Cyf/Ltd
Clwb Anabl Aberhonddu a'r Cylch
Clymblaid Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr
British Limbless Ex-Service Mens Association
C.L.I.P (Ymdopi a Byw â Phoen)
C.G.G.C / C.V.S.C
Cymdeithas Tai Cadwyn
Grŵp Mynediad Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Grŵp Mynediad Caerdydd
Tai Cymuned Caerdydd
Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd - Voluntary Action Cardiff gynt
Caerdydd Broydd a Chymoedd/Cardiff Vales and Valleys
Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd
Gofal a Thrwsio Cymru
Clymblaid Gweithredu dros Anabledd Sir Gaerfyrddion
Grŵp Mynediad Anabledd Sir Gaerfyrddin
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Catch Up Cyf

Canolfan Byw'n Annibynnol De Gwynedd
Mynediad Ceredigion
Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Dinas a Sir Abertawe
Cymdeithas Tai Clwyd Alun
Grŵp Gwirfoddol Mynediad Sir Conwy
Cyngor Cymuned Cwmbran
DIAL UK (yn ymgorffori SCOPE)
Celfyddydau Anabledd Cymru
Grŵp Ymwybyddiaeth Anabledd Cymdeithas Tai Taf (DAGTHA)
Gwasanaeth 'Disability Law Service'
Chwaraeon Anabledd Cymru
Heddlu Dyfed Powys - Gwasanaethau Canolbwyntio ar y Dinesydd
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Faces
Fieldsman Trails - Ymgynghorwyr Mynediad
Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf cyf/First Choice
Fforwm Anabledd Sir y Fflint
Cyfeillion yr Ifanc Anabl yng Nghymru
GAVO
Cyngor Cymuned Glyn-Nedd
Mudiad 'Groundwork Wales'
Grwp Mynediad Meirionnydd
Cŵn Tywys
Menter Cwm Gwendraeth (T/A) Gweithlu Cymru
Clwb Modurwyr Anabl Gwent
Cronfa Gyfrannol Ysbytai Gwent
Tîm Cydlyniant Heddlu Gwent

Cyngor Gwynedd
Headway Caerdydd
Headway Abertawe
Y Llyfrgell Hybu Iechyd
Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc (G4S Care & Justice Services)
Anabledd Dysgu Cymru
Lindsay Ford Cyfreithwyr/Solicitors
Cyngor Cymuned Llandybie
Cymdeithas M S Wales/Cymru
Cyngor Tref Machynlleth
Mantell Gwynedd
Cyngor Cymuned Maerun/Marshfield
Mencap Cymru
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful
Cartrefi Cymoedd Merthyr
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau
Cyngor Tref Arberth
Comisiwn Cenedlaethol Pobl ag Anabledd
Cyngor Bwrdeistref Castell-Nedd Port Talbot
CVS Castell-Nedd Port Talbot
Grŵp Mynediad Casnewydd
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG
P.I.P.P.A
Grŵp Mynediad Sir Benfro
Cyngor Tref Penarth
R.N.I.B Cymru
Grŵp Mynediad Rhondda Cynon Taf
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf

S4C
Cymru Ddiogelach Cyf
SAIL
Sefydliad St. Loyes Foundation
Sense Cymru
Ymddiriedolaeth Shaw Trust
Rhwydwaith Agored Anabledd De Cymru (SWDON)
Heddlu De Cymru
Y Gymdeithas Strôc/Stroke Associaton
Gofal a Thrwsio Abertawe
Menter Anabledd Abertawe
Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
Tai Pawb
Fforwm Anabledd TARAN Cyf
Cronfa Goffa Keith Morris
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
UNISON Cymru/Wales
Undeb Unite
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru Casnewydd
Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Y Fro
Prosiect Viva
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Cyngor Cymru i'r Deillion
Gwasanaethau Asesu Symudedd a Gyrru Cymru
Grŵp Mynediad Ynys Môn
Lleisiau Ifanc am Ddewis